# Tasg 1

(Heriol, sbardun 3)

**TASGAU DARLLEN A DEALL**

**Y darn cyntaf**

1. Darllenwch y darn cyntaf yn ofalus, a gwnewch fraslun o'r got a'r het. Does dim gwahaniaeth os nad ydych chi'n dda am arlunio!

2. Llenwch y tabl geirfa isod:

| Geirfa sy'n gysylltiedig â dillad | Geirfa rhannau'r corff |
|---|---|
| | |

3. Chwiliwch am eiriau sy'n golygu:
   a) mwy tywyll ......................................
   b) rhyfeddol ......................................
   c) y rhan o'r wyneb rhwng y gwallt a'r llygaid ......................................
   ch) hardd, atyniadol ......................................
   d) 'sticio' ......................................
   dd) gwneud rhywbeth i edrych yn hardd ......................................

**Yr ail ddarn**

1. Pa fath o esgidiau roedd y dynion oedd yn dod i'r tŷ yn eu gwisgo? (*o leiaf 4 pwynt)*

2. Pa fath o esgidiau roedd 'myfyrwyr miwsig Dad' yn eu gwisgo?

3. Pam mae esgidiau Myng-gu (mam-gu/nain) yn cael eu disgrifio fel rhai 'synhwyrol', yn eich barn chi?

4. O ddarllen y disgrifiad, pa fath o esgidiau roedd Anti June yn eu gwisgo? *(nid y sandals!)*

5. Rhowch y frawddeg: 'A doedd dim dal pa liw fyddai'r rhain.' yn eich geiriau eich hun.

6. Beth mae'r plentyn yn ei wneud ag esgidiau Anti June?